

## Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 9<sup>fed</sup>
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
  - Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00.
  - Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol yn Llanefydd am 9.30.
  - Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 11.00.
- Gwener – 21<sup>ain</sup>
- Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn Sul (16<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
- Sul canlynol – 23<sup>ain</sup>
- Bydd Gwion Dafydd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
  - Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Gwion Dafydd yn arwain oedfa yno am 11.00.

## Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Cofiwn yn arbennig am Bessie Owens (Cefn Berain), a Megan Evans a Margaret Jones (Llansannan) sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a hefyd Erina Roberts (Llanefydd) a Helen Pritchard (Llansannan) sydd wedi bod yn yr ysbyty ond sydd bellach wedi cael dod adref. Cyflwynwn hwy oll, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Longyfarchiadau i Betty Evans (Llansannan) ar ddathlu penblwydd arbennig.

## I ddod

- **OEDFA O FAWL** yng nghwmni Meilyr Geraint, cerddor ifanc o Bontypridd, nos Sul, Gorffennaf 7fed yn Llansannan am 6.00.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Mehefin 9<sup>fed</sup> a 16<sup>eg</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:  
@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso i chi i Sul y Pentecost 2019. Heddiw bydd Cristnogion ar draws y byd yn cofio'r diwrnod syfrdanol hwnnw yn Jerwsalem pan wireddwyd addewid Iesu Grist. Wedi'r disgwyl, llanwyd y disgyblion gyda'r Ysbryd Glân ac yn sgil hynny daeth 3,000 o bobl i gredu yng Nghrist mewn un diwrnod (Actau 2:41). Ac wrth i ni addoli Duw heddiw a gofyn am ei fendith, gwnawn hynny yn hyderus fod yr un Ysbryd Glân yn parhau ar waith wrth i'r newyddion da am Iesu gael ei gyhoeddi ym mhob man.

Petawn i'n gofyn i chi beth yw'r anrheg gorau i chi ei dderbyn erioed, tybed beth fyddai'r ateb? Tocyn drudfawr i ddigwyddiad bythgofiadwy, neu rodd bersonol oedd yn golygu llawer i chi oherwydd ei fod yn dangos cymaint yr oedd y rhoddwr yn feddwl ohonoch?

Efallai mai'r ymateb mwyaf cyffredin fyddai dweud nad yw hi'n bosib dewis un anrheg yn unig! O ofyn yr un cwestiwn am ein bywydau ysbrydol, dwi'n siŵr y byddai Cristnogion yn ateb mewn ffordd debyg hefyd, ac mae hynny ynddo'i hun yn dangos haelioni rhyfeddol Duw tuag atom – sut allwn ni ddewis un peth fel yr anrheg gorau?

Yn yr Efengylau, mae Iesu yn aml yn cyfeirio at Dduw fel Tad sy'n rhoi rhoddion da: 'Am hynny, os ydych chiwi, sy'n ddrwg, yn medru rhoi rhoddion da i'ch plant, gymaint mwy y rhydd eich Tad sydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai sy'n gofyn ganddo!' (Mathew 7:11) Ond ydym ni'n meddwl fel hyn am ein bywydau? Mor hawdd yw canolbwyntio ar yr hyn sydd ddim gennym yn hytrach na'r hyn a roddwyd i ni trwy ras Duw. A phan ystyriwn beth yn union y mae'r Cristion wedi'i dderbyn gan Dduw sylweddol mor ganolog yw Iesu ei hun i'r cyfan. Oherwydd bod Crist wedi talu'r pris eithaf ar y Groes mae'r Cristion yn cael derbyn maddeuant, a pheidio wynebu cosb Duw (Rhufeiniaid 8:1). Gan fod Crist wedi codi'n fyw o'r bedd mae gan y Cristion addewid o fywyd wedi marwolaeth. Ac wrth ddod i berthynas ag Iesu trwy ymddiried ynddo, mae'r Cristion yn derbyn bywyd ysbrydol newydd gyda'r Ysbryd Glân yn ei arwain a'i gysuro am byth.

Pam yr holl roddion? Nid oherwydd beth yr ydym yn ei haeddu, ond oherwydd cariad unigryw y rhoddwr! Dewch i ni droi ato heddiw a diolch iddo am ei holl haelioni.

'Ond mae Duw mor anhygoel o drugarog! Mae wedi'n caru ni gymaint! <sup>5</sup> Mae wedi rhoi bywyd i ni gyda'r Meseia – ie, ni oedd yn farw'n ysbrydol am ein bod wedi gwrthryfela yn ei erbyn. Y ffaith fod Duw mor hael ydy'r unig reswm pam dyn ni wedi'n hachub!' (Effesiaid 2:4-5 Beibl.net)

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma – 9<sup>fed</sup>

- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2.30. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso i bawb.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.

Mawrth – 11<sup>eg</sup>

- **Sesiwn Hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus** – Mewn eglwysi lle cynhelir gwaith gyda phlant/ieuenctid/oedolion bregus, mae'n RHAID i athrawon Ysgol Sul, gwirfoddolwyr clybiau plant a ieuenctid, ymwelwyr bugeiliol, blaenoriaid ac ymddiriedolwyr dderbyn gwiriad trwy lenwi ffurflen DBS, a hefyd i fynychu hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus. Mae sesiwn hyfforddiant wedi'i drefnu gan Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng Nghapel Trefnant rhwng 6.30 a 9.00. Mae'r sesiwn yn agored i bawb ond yn hanfodol i unrhyw un sy'n ffitio'r categori uchod, ac sydd heb fynychu hyfforddiant o'r blaen.

Mercher – 12<sup>fed</sup>

- **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.

Iau – 13<sup>eg</sup>

- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.

Gwener – 14<sup>eg</sup>

- **Darlith Ar Fwyd A Gwaith Henry Rees I Nodi 150 Mlynedd Ers Ei Farwolaeth** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 7.30 yr hwyr dan nawdd Cymdeithas Dydd yr Arglwydd. Darlithydd: Y Parch. Goronwy Prys Owen. Fe wneir casgliad. Croeso cynnes i bawb.

Gwener 14<sup>eg</sup> –

- **'Disglair'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala. Nos Wener bydd noson o fawl a dysgeidiaeth, ac yna dydd Sadwrn, y brif siaradwraig fydd Mari Williams o Gaernarfon, a bydd Gwawr Davies, Cefn Meiriadog ac aelod o dîm A21 yno yn y prynhawn i drafod y gwaith anhygoel mae'r elusen yn ei wneud ar draws y byd. Cofrestrwch ar-lein ar wefan [www.colegybala.org](http://www.colegybala.org) neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565. Os hoffech gael lifft, plis cysylltwch â Mair.

Sadwrn 15<sup>fed</sup>

- **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Parc, Y Bala am 10.00.

Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

Gwener – 21<sup>ain</sup>

- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

Sul canlynol – 23<sup>ain</sup>

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 9<sup>fed</sup>

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.

Mawrth – 11<sup>eg</sup>

- Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.

Mercher – 12<sup>fed</sup>

- Bydd y criw Paned a Sgwrs sydd wedi rhoi eu henwau i fynd am de prynhawn i'r Grousemoor yn Llandegla yn cychwyn o Clwt am 11:30.
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (9<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>

- Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Mercher – 19<sup>eg</sup>

- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (16<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.

Sul canlynol – 23<sup>ain</sup>

- Bydd Mr Andrew Settatree yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Mr Andrew Settatree yn arwain oedfa yno am 11.00.

### Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 9<sup>fed</sup>

- Bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>

- Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith (Peniel, Saron a Nantglyn) yn Saron **am 10.00**.

Sul canlynol – 23<sup>ain</sup>

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Rhodri hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (19eg), os gwelwch yn dda.